Adroddiad Blynyddol

MANTELL GWYNEDD

2025 - 2026



MANTELL GWYNEDD

www.mantellgwynedd.com

MANTELL
GWYNEDD

Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

SWYDDFA GOFRESTREDIG
25 Y Bont Bridd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1AB
Ffôn: 01286 672 626
ymholiadau@mantellgwynedd.com

Elusen Gofrestredig: 1068851 | Cwmni Cyfyngedig Trwy Warant: 3420271 | Cofrestrwyd yng Nghymru

LLUN CLAWR:
Amgueddfa Forwrol Llŷn, Nefyn.
Derbyniodd yr Amgueddfa Forwrol £45,363 o arian o Gronfa Sector Wirfoddol Mantell Gwynedd er mwyn uwchraddio system wresogi'r adeilad a gwneud gwaith atgyweirio.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru Funded by Welsh Government
Cefnogi Trydydd Sector Cymru Third Sector Support Wales
SOCIAL VALUE 3 MAXIMISE MANAGEMENT CERTIFICATE 2025 Industry Partner
CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND
CYNGOR GWYNEDD
GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board
LLAIS Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Cynnwys

Neges gan y Cadeirydd	4
Gweithgareddau	5
Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd	6 - 9
Prosiect Gafael Llaw i Wirfoddoli	10
Prosiect Ffrindiau Newydd	11
Iechyd a Llesiant	12 - 13
Presgripsiwn Cymdeithasol	14 - 15
Social Value Cymru	16 - 17
Grantiau	18 - 22
Gwasanaeth Cyflogres	23
Cynlluniau'r Dyfodol	24
Crynodeb Ariannol	25
Bwrdd Rheoli a Staffio	26

www.mantellgwynedd.com

Neges gan y Cadeirydd...



Mae wedi bod yn flwyddyn arall brysur a llwyddiannus i Mantell Gwynedd ac mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2025-25 i'ch sylw.

Fel y gwelwch o'r Adroddiad mae wedi bod yn flwyddyn dda o weithio mewn partneriaeth efo Cyngor Gwynedd eleni. Llwyddwyd i gyrraedd cytundeb cydweithio ar ffurff Compact rhwng y ddwy sector a mabwysiadwyd y Compact Cydweithio yn ffurfiol gan Gabinet Cyngor Gwynedd ym mis Medi 2026. Dyma osod sail gadarn ar gyfer y dyfodol ac mae fy niolch yn fawr i bawb fu wrth y llyw i sicrhau hyn.

Yn ystod 2025-26 bu Mantell Gwynedd, unwaith eto, yn gweinyddu Cronfa Grant Sector Wirfoddol Gwynedd. Dyma arian o Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig a thrwy gydweithio hefo adran Datblygu'r Economi yn y Cyngor llwyddwyd i ddenu £650,000 ar gyfer y trydydd sector yng Ngwynedd. Cefais y fraint, unwaith eto eleni, o gadeirio y Panel Grantiau ac fel y gwelwch o'r Adroddiad Blynyddol yma llwyddwyd i gefnogi nifer dda o brosiectau gwerth chweil.

Mae'r gwaith o fesur gwerth cymdeithasol trwy brosiect Social Value Cymru wedi tyfu yn sylweddol dros y flwyddyn. Mae Mantell Gwynedd yn parhau i arwain yn genedlaethol yn y maes yma ac mae'r amrediad gwaith mae'r prosiect yn ei gyflawni bellach yn eang iawn. Yn ystod y flwyddyn llwyddodd Mantell Gwynedd i ennill marc ansawdd Lefel 3 gan Social Value International. Dyma gam pwysig iawn, nid yn unig oherwydd ein bod y cyntaf yng Nghymru i ennill y marc ansawdd yma ond oherwydd ei fod yn dystiolaeth gadarn o ymwrymiad Mantell Gwynedd i fesur gwerth cymdeithasol.

Daeth carreg filltir bwysig hefyd i waith Presgripsiwn Cymdeithasol Mantell Gwynedd. Wedi dros ddegawd o ddarparu'r gwasanaeth pwysig yma llwyddwyd i ennill cytundeb tair blynedd i barhau i ddarparu'r gwaith. Bydd hyn yn diogelu gwasaneth pwysig dros y cyfnod nesaf a braf adrodd y bydd y gwasanaeth yn ymestyn o fod yn Arfon yn unig i fod ym Mhen Llŷn a hefyd ym Meirionnydd yn ystod y flwyddyn nesaf.

Braf yw adrodd hefyd am lwyddiant Mantell Gwynedd i ddenu arian Loteri yn ystod y flwyddyn. Wedi defnyddio arian SPF (Cronfa Ffyniant Gyffredin) ar gyfer peilota prosiect Gafael Llaw i Wirfoddoli mi lwyddwyd, trwy fesur ei werth cymdeithasol, i gyflwyno cais i'r Loteri Cenedlaethol am arian i barhau'r prosiect. Cafwyd ychydig dros £260,000 sydd yn diogelu'r gwaith am y bedair blynedd nesaf. Felly llawer iawn o newyddion da i'w adrodd ac mae fy niolch yn fawr i holl staff Mantell Gwynedd am eu gwaith caled a'u hymroddiad i'r cwmni ac i'r sector. Diolch hefyd i fy nghyd aelodau ar y Bwrdd Rheoli. Mae'n fraint ac yn bleser mawr cael cadeirio'r cwmni pwysig yma.

Yn olaf diolch i chi, y trydydd sector yng Ngwynedd. Fel dwi'n dweud bob blwyddyn, byddai Gwynedd yn sir dlawd iawn heb y trydydd sector, felly diolch amdanoch ag am bawb sydd yn eich cefnogi.

Trystan Pritchard
(Cadeirydd y Bwrdd Rheoli)

Gweithgareddau

Beth mae Mantell yn ei wneud?

Cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol, annog unigolion i wirfoddoli a bod yn llais cryf i'r trydydd sector yng Ngwynedd yw nod Mantell Gwynedd.

Mae Mantell Gwynedd yn gwmni elusennol cofrestredig gydag aelodaeth leol sydd hefyd yn rhan o rwydwaith CTSC (Cefnogi Trydydd Sector Cymru) sef 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol a CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru) sy'n gweithredu trwy Gymru. Daw'r arian craidd i redeg y cwmni oddi wrth Llywodraeth Cymru trwy law CGGC. Mae Mantell Gwynedd yn ymgymryd â gwaith a gweithgareddau ychwanegol i hyn ond gyda'r un nod o hyrwyddo gwirfoddoli a'r trydydd sector yng Ngwynedd.

Derbyniwyd dros **5,000** o ymholiadau yn ystod y flwyddyn



Mae'r gweithgareddau yn cynnwys y canlynol:

- Hyrwyddo, datblygu a chefnogi cyfleoedd gwirfoddoli
- Cynrychioli'r trydydd sector a chydweithio ar bartneriaethau strategol
- Rhoi cymorth i bobl a mudiadau i ymgysylltu'n fwy effeithiol gyda chyrff cyhoeddus
- Rhoi cefnogaeth lywodraethol i fudiadau e.e. materion cyfansoddiadol ac ariannol
- Rhoi cefnogaeth i fudiadau i fesur eu gwerth yn well, yn enwedig gwerth cymdeithasol
- Gweithredu fel linc ar gyfer cyfeirio unigolion at wasanaethau trydydd sector e.e. Presgripsiwn Cymdeithasol
- Rhoi cefnogaeth i redeg prosiectau a pheilota prosiectau ar gyfer y trydydd sector pan fo angen
- Hwyluso cyflogaeth swyddogion ar ran partneriaid
- Rheoli ffynonellau grant a rhoi cyngor ar ariannu prosiectau
- Hybu datblygiad mentrau cymdeithasol a chynaliadwyedd mudiadau
- Annog datblygiad a chyd-lynu consortia darparwyr trydydd sector
- Rhannu gwybodaeth gyda'r trydydd sector trwy'r Bwletin misol, taflenni gwybodaeth, yr wefan, cyfryngau cymdeithasol ac unrhyw ddull priodol arall
- Cynnig rhaglen hyfforddiant i gynorthwyo mudiadau a gwirfoddolwyr yn eu gwaith
- Cynnig gwasanaethau ymarferol e.e. llogi offer, llungopio, darparu ystafelloedd cyfarfod a gofod swyddfa
- Cynnig gwasanaeth cyflogres
- Annog cydweithio ar draws sectorau.

Aelodaeth

Mae aelodaeth yn agored i holl fudiadau gwirfoddol Gwynedd, ac mae'r tâl ymaelodi yn **£10 y flwyddyn**.

Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd



Yng Nghanolfan Gwirfoddoli Gwynedd rydym yn:

- Recriwtio gwirfoddolwyr
- Hyrwyddo gwirfoddoli
- Cefnogi gwirfoddoli
- Dathlu gwirfoddoli
- Cynghori a datblygu ymarfer da mewn gwirfoddoli

WYTHNOS GWIRFODDOLWYR 2025

Cynhaliwyd digwyddiad DATHLU A DIOLCH i wirfoddolwyr ym Mhortmeirion. 'Roedd yn achlysur pwysig eto eleni i ddathlu cyfraniadau arbennig gwirfoddolwyr ledled y sir gan gydnabod unigolion a grwpiau am eu hymroddiad, eu caredigwrydd a'u hysbryd cymunedol. Canolbwyntwyd eleni ar y rôl mae gwirfoddolwyr yn ei chwarae wrth wella lles pobl a chryfhau cymunedau lleol.

HYFFORDDIANT DIOGELU

Cynhaliwyd 6 sesiwn Hyfforddiant Diogelu Grwp B i gefnogi gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a staff y trydydd sector yn ystod y flwyddyn. Mynychodd dros 100 o unigolion yr hyfforddiant gan gryfhau dealltwriaeth o sut i adnabod pryderon, ymateb yn briodol a deall cyfrifoldebau diogelu o fewn eu rolau.

"Diolch am y cyfle i atgoffa ni am bwysigrwydd diogelu ac am rannu arferion a gweithdrefnau da."

325
ymholiad









Gwirfoddo


Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales

MARCHNAD GWIRFODDOLI

Cynhaliwyd Marchnad Gwirfoddoli ym mis Chwefror gyda 20 o fudiadau a ddaeth ynghyd yn Neuadd y Farchnad, Caernarfon. 'Roedd yn gyfle gwerthfawr i bobl ddarganfod y llu o gyfleoedd gwirfoddoli a sut gallent wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau. 'Roedd yn gyfle hefyd i siarad yn uniongyrchol gyda mudiadau, elusennau a grwpiau cymunedol am gyfleoedd gwirfoddoli.











Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd

GRANT GWIRFODDOLWYR IFANC GWYNEDD

Mae Mantell Gwynedd yn parhau i weinyddu Grant Gwirfoddolwyr Ifanc Gwynedd.

Dyma gynllun sy'n rhoi pobl ifanc wrth galon y penderfyniadau am gyllid.

Mae'r cynllun grant yn rhan o gynllun grantiau dan arweiniad Llywodraeth Cymru ac yn cael ei ddosbarthu trwy Gynghorau Sirol Gwirfoddol ledled Cymru i gefnogi prosiectau gwirfoddoli sydd wedi eu cynllunio a'u harwain gan bobl ifanc.

Pob blwyddyn mae paneli lleol o bobl ifanc 15-25 oed yn penderfynu pa brosiectau fydd yn derbyn cyllid gan roi cyfle iddynt ddatblygu eu sgiliau, cael llais gwirioneddol mewn penderfyniadau a chefnogi syniadau sydd yn gwneud gwahaniaeth yn eu cymunedau.

Ym 2025 ymunodd 3 o bobl ifanc o Ysgol Dyffryn Nantlle â'r panel. Ar ôl ystyried nifer o geisiadau penderfynodd y panel ariannu dau brosiect gwahanol iawn gyda'r ddau yn cynnig cyfleoedd creadigol i bobl ifanc gymryd rhan a chyfrannu at eu cymunedau.





'Roedd gofyn i bob prosiect fynd i'r afael ag o leiaf un o saith Nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
Y ddau brosiect a gymeradwywyd am gyllid oedd:



Celf y Dre , Porthi Dre
£2,620

Llythyr o Gymru, Ty'n Llan, Llandwrog
£2,620

Gwirfoddo

Gwirfoddoli Cymru Volunteering Wales

ASTUDIAETH ACHOS:
Prosiect Llythyr o Gymru , Ty'n Llan, Llandwrog.

Prif amcan y prosiect oedd i greu ffilm Gymraeg wedi'i hysbrydoli gan "A Letter from Wales" (1953)

Mae "Diflaniad" yn adlewyrchu sut mae bywyd a chymuned LLandwrog wedi newid dros y degawdau, gan gynwys clip o'r ffilm wreiddiol "A Letter from Wales"

Bu i 29 o bobl ifanc fod yn rhan o'r prosiect gyda llawer ohonynt yn gwirfoddoli am y tro cyntaf erioed. Wrth gydweithio gyda'i gilydd, a gyda chefnogaeth gan arbenigwyr yn y maes drama a ffilm, cafodd y bobl ifanc gyfle i actio, ysgrifennu sgriptiau, ffilmio a golygu eu gwaith. Gwelwyd datblygiad yn y bobl ifanc gyda llawer ohonynt yn fwy hyderus wrth rannu syniadau, cydweithio fel tîm a chymryd cyfrifoldeb dros rannau gwahanol o'r gwaith.

Roedd effaith gymdeithasol y prosiect yn glir iawn trwy'r adborth a'r mesuriadau canlyniadau a gasglwyd ar ddiwedd y gweithgareddau. Cafodd y prosiect y lefel uchaf bosib o effaith mewn sawl maes allweddol, gan gynnwys mwy o gyfranogiad pobl ifanc yn y gymuned, datblygu sgiliau newydd, cynnydd mewn hyder cymdeithasol a mwy o gymhelliant i wirfoddoli eto yn y dyfodol.

Roedd yr effaith yn arbennig o gryf oherwydd natur cymunedol y prosiect. Daeth y gweithgareddau â gwahanol genedlaethau ynghyd trwy adrodd straeon lleol, dathlu hanes y gymuned a defnyddio'r Gymraeg mewn ffordd fyw a chreadigol.

Mae'r model grant dan arweiniad pobl ifanc yn sicrhau bod pobl ifanc eu hunain yn chwarae rhan allweddol wrth wneud penderfyniadau ynghylch pa brosiectau sy'n derbyn cefnogaeth. Trwy wneud hyn, mae'n helpu i sicrhau fod y cyllid yn cyrraedd prosiectau sy'n bwysig ac yn berthnasol i bobl ifanc lleol.

Effaith ar y Gymuned

Bu i oddeutu 80 o aelodau'r gymuned elwa o'r prosiect gyda llawer yn cymryd rhan yn y ffilm. Daeth gwahanol genedlaethau ynghyd i ddathlu hanes lleol, treftadaeth a'r iaith Gymraeg. Trefnodd y grŵp hefyd ddigwyddiad carped coch i wylio'r ffilm wreiddiol o 1953 ac i ddangos y ffilm newydd a grëwyd gan y bobl ifanc am y tro cyntaf.

Cipolwg ar y Prosiect

Prosiect: Llythyr o Gymru
Lleoliad: Tŷ'n Llan, Llandwrog
Grant a Dderbyniwyd: £2,620
Gwirfoddolwyr Ifanc: 29
Buddiolwyr Cymunedol: 80
Themau y prosiect: Cyfryngau, gwirfoddoli, y Gymraeg ac ymgysylltu cymunedol
Prif allbynnau: Mwy o hyder, sgiliau, arweinyddiaeth a chyfranogiad cymunedol

"Mae gwirfoddoli i'r prosiect yma wedi hybu fy hyder cyn mynd am brofiad gwaith gyda Cwmni Fran Wen. Yn ychwanegol, mae gwirfoddoli wedi rhoi blas ar beth yw e i weithio gyda tim i greu rhywbeth a mae hyn wedi fy nysgu sut i gyd-weithio gyda phobl o bob oedran.. Mae hefyd wedi dangos i mi mwy o gyfleoedd yn y byd ffilm".

Prosiect Gafael Llaw i Wirfoddoli

Dechreuodd y prosiect yma fis Ionawr 2024 gydag arian o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Prosiect peilot oedd hwn yn y lle cyntaf yn cyflogi Swyddog i weithio un i un hefo unigolion oedd angen cefnogaeth i fynd ati i wirfoddoli. Cafwyd ail rownd o arian Cronfa Ffyniant Gyffredin i gefnogi'r gwaith ac erbyn 2025 'roedd yn amlwg fod hwn yn brosiect llwyddiannus iawn fyddai angen ariannu tymor hir ar ei gyfer.

Llwyddwyd gyda chais i Gronfa Cymunedol y Loteri Cenedlaethol a chafwyd £262,000 er mwyn cefnogi'r gwaith am gyfnod o bedair blynedd.



Dorin – 'Gwirfoddoli wedi gwella ansawdd fy mywyd'

Fel gwirfoddolwr sesiynau 'Llond Bol!' gyda Yr Orsaf ym Mhenygroes, mae Dorin wedi gwneud cyfraniad allweddol i'r gymuned leol. Mae cynllun 'Llond Bol!' yn brosiect sy'n darparu pryd o fwyd am ddim i drigolion ardal Dyffryn Nantlle bob prynhawn dydd Mercher yn Neuadd Goffa'r pentref.

Mae rôl Dorin yn cynnwys rhoi cymorth gyda'r paratoadau, coginio, gweini bwyd, a sicrhau bod pob mynychwr yn teimlo'n hapus ac yn gyfforddus. Yn ystod ei gyfnod yn gwirfoddoli yn Yr Orsaf, mae Dorin wedi derbyn tystysgrifau 25, 50 a 100 awr trwy Gynllun Gwirfoddoli Gwynedd.

"Mae gwirfoddoli wedi fy ngwneud yn llawer hapusach. Mae wedi rhoi ymdeimlad o bwrpas mewn bywyd i mi, ac rwyf nawr yn teimlo'n ddefnyddiol ac yn cael fy ngwerthfawrogi. Mae bod yn rhan o'r gymuned yma yng Ngogledd Cymru wedi codi fy ysbryd yn fawr. Fel rhywun sy'n dod yn wreiddiol o Romania, mae sesiynau 'Llond Bol!' wedi fy helpu i deimlo'n gartrefol. Mae hyn yn fy ngwneud yn hapus iawn. Mae gwirfoddoli wedi gwella ansawdd fy mywyd yn fawr", meddai Dorin wrth adlewyrchu bod gwirfoddoli wedi gwir wella ansawdd ei fywyd.

Ers cychwyn y prosiect yn Ionawr 2024 mae

248

o unigolion wedi cael cefnogaeth ac wedi mynd ati i wirfoddoli o ganlyniad

Simon - O Wirfoddoli i'r Brifysgol



Ers mis Chwefror 2025, mae Simon o Abergwyngregyn wedi bod yn gwirfoddoli un bore'r wythnos yn siop elusen y Groes Goch ym Mangor. Ac mae'r hyn a ddechreuodd fel cam bychan tuag at wirfoddoli wedi datblygu'n daith sydd wedi rhoi hwb sylweddol i'w hyder, ei annibyniaeth a'i ddyheadau ar gyfer y dyfodol. Yn ystod ei amser yn y siop, mae Simon wedi datblygu sgiliau newydd drwy ymgymryd ag amrywiaeth o ddyletswyddau, gan gynnwys didoli rhoddion a pharatoi arddangosfeydd.

Ymhellach, mae'r hyder a ddatblygodd drwy wirfoddoli wedi helpu Simon i edrych tuag at y dyfodol gyda mwy o uchelgais. Ar un adeg, nid oedd yn teimlo'n ddigon hyderus i ystyried addysg uwch. Bellach, mae'n astudio Ffiseg ac Astroffiseg ym Mhrifysgol Keele.

Meddai Simon: *"Fe wnaeth Mantell Gwynedd yr holl broses o ddod o hyd i gyfle gwirfoddoli addas yn esmwyth iawn. Mae yna lawer o bobl fel fi sydd eisiau dysgu sgiliau newydd, gwella hyder a chyfrannu i gymdeithas ond sydd angen ychydig o hwb i'w helpu i ddechrau arni. Roedd y prosiect Gafael Llaw yn wych wrth roi'r gefnogaeth a'r anogaeth i mi ddechrau arni."*

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

Prosiect Ffrindia' Newydd

Mae gan Mantell Gwynedd hanes hir o ddarparu gwasanaeth cyfeillio yn Ngwynedd ar gyfer unigolion sydd yn unig neu mewn peryg o fod yn unig.

Lansiwyd prosiect cyfeillio cyntaf Mantell Gwynedd yn 2012 a bu'n weithredol hyd 2016. Wedi ei ariannu gan Gronfa Llawn Bywyd y Loteri Cenedlaethol bu i'r prosiect cyntaf yma gefnogi dros 300 o unigolion. Daeth i ben yn 2016 oherwydd diffyg nawdd.

Gwelwyd cyfle yn 2025, gydag arian Cronfa Ffyniant Gyffredin, i beilota cynllun cyfeillio newydd yng Ngwynedd er mwyn canfod angen a chasglu data ar gyfer lansio prosiect cyfeillio unwaith eto fyddai yn mynd ati i daclo unigrwydd ac ynysigrwydd yng Ngwynedd.
Prif nod Ffrindia Newydd (fel y prosiect Ffrindia' gwreiddiol) yw hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr i gyfeillio ag unigolion dros 50 oed gan gynnig cwmni, sgwrs gyfeillgar a chyfeillgarwch anffurfiol sydd yn cyfrannu at wella lles a lleihau unigrwydd.



Mae'r prosiect peilot Ffrindia' Newydd wedi profi bod angen yn parhau am y gwasanaeth yma ac yn gyfle i Mantell Gwynedd gasglu data gwerthfawr er mwyn ymgeisio am nawdd tymor hirach i gynnal ac ymestyn y prosiect.

ASTUDIAETH ACHOS
Llinos a Gillian

Cafodd Llinos ei pharu â Gillian sydd yn gaeth i'r tŷ ac yn byw gyda nam golwg sy'n gwaethygu ei hunigrwydd.

Erbyn hyn mae'r ddwy yn edrych ymlaen at bob dydd Mawrth pan fyddant yn cyfarfod yng nghartref Gillian am baned a sgwrs. Pan mae'r tywydd yn braf maent yn eistedd yn yr ardd ac yn rhannu straeon am atgofion o fywyd. Er bod bwlch oedran o bron i 40 mlynedd rhyngddynt maent wedi darganfod bod ganddynt lawer mwy yn gyffredin na fyddent wedi'i ddisgwyl ac mae cyfeillgarwch agos wedi tyfu rhyngddynt.

Mae'r cyfarfodydd yn rhoi cyfle i Llinos arafu a chael seibiant o'i bywyd prysur, tra bod Gillian yn mwynhau 'r cwmni a 'r cyfle i sgwrsio am unrhyw beth a phopeth.

Mae'r berthynas wedi bod yn ffynhonnell werthfawr o les a chysylltiad i'r ddwy.

Meddai Gillian:
"Before meeting Llinos I thought I had lost the art of conversation but I have regained it through our weekly meetings….meeting my befriender was like being given a gift."

Meddai Llinos"
"Cyfle gwerthfawr i greu cysylltiad, gwrando a rhannu eiliadau sy'n llesol i'r ddwy ohonom."



Iechyd a Llesiant

Mae prosiect Codi Pontydd Cadarn yn cael ei ariannu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac yn galluogi Mantell Gwynedd i ariannu Hwylusydd Iechyd a Llesiant llawn amser.

Mae'r swydd yn sicrhau pont rhwng y gwasanaeth iechyd a mudiadau trydydd sector sydd yn darparu gwasanaethau yn y maes iechyd a llesiant.

Yn ystod 2025– 26 cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd Rhwydwaith Llesiant a Gwirfoddoli. Mae'r cyfarfodydd hyn yn ganolog i gefnogi gwasanaethau mudiadau'r trydydd sector.



Eleni dyma'r themâu yn y cyfarfodydd drefnwyd gan neu ar y cyd gyda'r Hwylusydd:

- Sesiwn gwyntyllu Trydydd Sector
- Digwyddiad Spid-detio rhyngweithiol
- Digwyddiad ymgysylltu IECHYD DA'R HA' 25, Gogledd Gwynedd
- Gweminar 'Tech in Care' ar y cyd gyda Medrwn Môn
- Diweddariad gan Suzanne Mollison WCVA ar Ddiogelu & DBS
- Digwyddiad ymgysylltu IECHYD DA 2025 yn Nolgellau
- 'Gweithio Mewn Partneriaeth' – trafod Cytundeb Compact Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector
- Dathliad Nadolig ar thema Llesiant gan Hwyluswyr Gogledd Cymru
- Sesiwn Iechyd: Gwybodaeth am ME/CFS/ Covid Hir gan WAMES a Sgrinio Iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cynhadledd Diwrnod Cenedlaethol Menywod gan Hwyluswyr Gogledd Cymru mewn partneriaeth gyda BIPBC ym Mangor
- 'Be Gymri Di?' peilot cefnogaeth galar i Oedolion Ifanc 18 – 35 oed drwy cyfrwng y Gymraeg ac wedi ei noddi gan Llais.

Ymgysylltwyd gyda thros gant o fudiadau yn ystod y cyfnod dan sylw.











DIGWYDDIAD IECHYD DA'R HA'
25 MEHEFIN 2025

Mae Mantell Gwynedd yn cynnal digwyddiad IECHYD DA ers dros ugain mlynedd yn Nolgellau bob mis Hydref . Mae'n ddigwyddiad hynod llwyddiannus ac yn gyfle gwerthfawr i'r Trydydd Sector a phartneriaid ym myd Iechyd a Llesiant ddod at ei gilydd i rwydweithio ac ymgysylltu gyda'r boblogaeth leol yn Ne Gwynedd. Penderfynwyd llynedd ehangu'r ddarpariaeth a chynnal digwyddiad IECHYD DA'R HA' yn flynyddol yng Ngogledd Gwynedd. Bu'r digwyddiad eleni yn Neuadd y Farchnad, Caernarfon ar 25ain o Fehefin 2025 fel rhan o Wythnos Lles y Byd, ynghanol y don gyntaf o wres chwilboeth! Roedd y croeso yn gynnes y tu mewn i'r waliau hynafol. Diolch i'r Cynghorydd lleol Olaf Cai Larsen am annerch ac agor y digwyddiad eto eleni.



Roedd **17** stondin gan fudiadau Gwynedd a'n partneriaid

177 trwy'r drws

DIGWYDDIAD IECHYD DA DOLGELLAU
HYDREF 1, 2025

Diolch i'r Cynghorydd Linda Morgan am agor IECHYD DA 25 yn Nolgellau gydag anerchiad teimladwy. Cyfeiriodd at gyfraniad aruthrol y Trydydd Sector yn cefnogi, cynnal a gwella iechyd a llesiant y boblogaeth leol. Mae lle i ni gyd barhau i ddysgu am ddulliau i wella ansawdd ein hiechyd a'n lles. Rhan bwysig o'n llwybr ni i lesiant ydi darganfod beth sy'n ein helpu ni i ymlacio, sut i gael gwared o straen beunyddiol a'n cael ni i symud mwy.

Roedd **32** stondin gan fudiadau Gwynedd a'n partneriaid



203 trwy'r drws

"

ADBORTH

Beth oedd y peth gorau i chi fel mudiadau?

"mor ddefnyddiol dysgu am be sy ar gael"

"cael cyfle i siarad mor bwysig"

" popeth yn wych"

"diwrnod defnyddiol iawn"

"wedi cael aelodau newydd i Dementia Actif!"

"





Presgripsiwn Cymdeithasol

Mae Mantell Gwynedd wedi cyflogi Swyddog Cyswllt Cymunedol (Presgripsiwn Cymdeithasol) ers 2016 a thros gyfnod o ddegawd mae'r Swyddog wedi cefnogi 2,151 o unigolion. Mae'r Swyddog Cyswllt Cymunedol yn cefnogi unigolion mewn modd holistig a'u hannog i gael gwell gafael ar eu llesiant a'u hiechyd eu hunain.

Mae'r gweithgareddau sydd yn cefnogi unigolion yn gallu bod yn amrywiaeth eang o bethau ond , ar y cyfan, gweithgareddau ydynt sydd yn cael eu darparu gan fudiadau cymunedol a gwirfoddol. Mae sawl model gwahanol o Bresgrispiwn Cymdeithasol ond mae'r rhan fwya' yn fodel sydd yn cynnwys Swyddog Cyswllt Cymunedol sy'n derbyn cyfeiriadau ac wedyn gweithio gyda'r unigolion i adnabod cyfleoedd addas ar eu cyfer. Mae Mantell Gwynedd mewn lle unigryw i fedru darparu'r gwasanaeth yma gan ein bod, fel corff ymbarel trydydd sector, gyda bas data enfawr o fudiadau ar draws y sir.

Ers 2016 mae'r Swyddog Cyswllt Cymunedol wedi ei ariannu trwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ond o 2026 ymlaen bydd y gwaith yn cael ei gomisiynu trwy Cyngor Gwynedd. Mae'n newyddion da hefyd y bydd y gwaith, yn ystod 2026 yn ymestyn i Ben Llŷn a hefyd i Dywyn, Sir Feirionnydd.

CYSWLLT CYMUNEDOL ARFON: CYFEIRIADAU O 1AF EBRILL 2025 - 31AIN O FAWRTH 2026

Rôl y Swyddog Cyswllt Cymunedol yw:

- Grymuso unigolion i ail gysylltu gyda'u cymunedau lleol
- Magu hyder a gwydnwch
- Gwella lechyd a Lles
- Gwella ansawdd bywyd yr unigolion
- Lleihau nifer o apwyntiadau meddygol a'r defnydd o feddyginiaeth
- Cynyddu'r ymwybyddiaeth o beth sydd ar gael i gefnogi a chynorthwyo unigolion
- Lleihau unigrwydd
- Cynorthwyo unigolion i gymryd gwell rheolaeth o'u bywydau

Ers i'r prosiect gychwyn ym 2016 mae 2,151 o unigolion wedi eu cefnogi trwy'r prosiect. Yn ystod 2025-26 mae 233 o unigolion wedi eu cefnogi.



ASTUDIAETH ACHOS: Mrs K

Am gyfnod, bu Mrs K yn byw mewn ofn am fod rhywun yn cnocio at ddrws ei thŷ yn tystod y nos neu oriau mân y bore. Roedd hyn wedi digwydd dro ar ôl tro, gan ei gadael yn teimlo'n bryderus ac yn anniogel yn ei chartref . Yn poeni am ei lles, cysylltodd â'r heddlu i ofyn am gyngor. Ar ôl trafod y sefyllfa, argymhellodd yr heddlu fod Mrs K yn gosod gloch drws fideo a phe bai'r digwyddiadau'n parhau byddai'r cloch drws fideo yn help i gasglu tystiolaeth. Er ei bod yn cytuno byddai hyn yn syniad da nid oedd yn gwybod sut i fynd ati i ddewis a phrynu cloch fideo na chwaith sut i'w gweithio wedyn.

Cysylltodd Mrs K â swyddfa Mantell Gwynedd a chafodd ei chyfeirio at y Swyddog Cyswllt Cymunedol. Trefnwyd cyfarfod i drafod yr opsiynau oedd ar gael.

Cefnogodd y Swyddog Cyswllt Cymunedol Mrs K i archebu'r gloch drws fideo a thabled fel y gallai weld y clipiau yn hawdd. Yn ystod y sgwrs, nodwyd hefyd y byddai'n elwa o gymorth ymarferol ychwanegol, ac felly gwnaed cyfeiriad at y tîm Gofal a Thrwsio. Trefnwyd ymweliad ar y cyd, lle gosododd tîm Gofal a Thrwsio y gloch drws yn ei chartref, tra bu'r Swyddog Cyswllt Cymunedol yn helpu Mrs K i greu ei chyfrif Ring Doorbell ac yn dangos iddi sut i ddefnyddio'r system yn hyderus ar y tabled.

Gan gydnabod bod teimlo'n ddiogel yn golygu mwy na diogelwch corfforol yn unig, cyfeiriwyd Mrs K hefyd at Porthi Dre, ei chanolfan gymunedol leol, lle gallai fwynhau paned, cwrdd â phobl newydd a chymdeithasu. Bellach mae Mrs K yn teimlo'n llawer mwy diogel ac yn fwy hyderus yn ei chartref. Diolch i gydweithio rhwng gwasanaethau a'r gefnogaeth gywir ar yr adeg cywir, mae ganddi bellach yr offer i wella ei diogelwch a'r cyfle i deimlo'n fwy cysylltiedig â'i chymuned.

"Mae'r gefnogaeth a gefais wedi gwneud gwahaniaeth enfawr. Rwy'n teimlo'n llawer mwy diogel yn fy nghartref, ac mae cael pobl i wrando arnaf, fy nghynghori a'm cefnogi wedi rhoi tawelwch meddwl a hyder newydd i mi. Mae'n galonogol gwybod nad oes rhaid wynebu pethau ar fy mhen fy hun."

ASTUDIAETH ACHOS: Mr A

Cyfeiriwyd Mr A at y gwasanaeth gan y Tîm Atal Codymau yn dilyn strôc fach yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn ei wellhad, derbyniodd Mr A ohebiaeth annisgwyl gan y DVLA yn nodi y gallai ei drwydded yrru gael ei diddymu a bod angen cwblhau ffurflenni asesu ynghyd ag adolygiad meddygol. Achosodd hyn bryder sylweddol iddo, gan fod y gallu i yrru yn hanfodol i'w annibyniaeth, ei symudedd a'i les cyffredinol.

Trefnodd y Swyddog Cyswllt Cymunedol gyfarfod gyda Mr A er mwyn mynd trwy'r ffurflenni DVLA yn fanwl a sicrhau eu bod wedi'u cwblhau'n gywir. Yn ogystal, gwnaed cyfeiriad at Cyngor ar Bopeth, a ddarparodd gymorth ac arweiniad ychwanegol trwy gydol y broses.

Gan gydnabod yr effaith yr oedd yr ansicrwydd yn ei gael ar les emosiynol Mr A, trefnodd y Swyddog Cyswllt Cymunedol atgyfeiriad at Grŵp Strôc Môn ac Arfon. Galluogodd hyn i Mr A fynychu sesiynau wythnosol mewn amgylchedd gefnogol, gan roi cyfle iddo gymdeithasu, lleihau ei deimladau o bryder, a chynnal ei gysylltiadau cymunedol tra'r oedd yn aros am ganlyniad yr adolygiad.
Yn dilyn cyflwyno'r ffurflenni, cadarnhaodd y DVLA fod yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi'i dderbyn ac yn foddhaol. Derbyniodd Mr A gadarnhad ei fod yn bodloni'r meini prawf meddygol i barhau i yrru. Daeth hyn â'r broses i ben yn llwyddiannus gan roddi sicrwydd a thawelwch meddwl sylweddol iddo.

Dywedodd Mr A:
"Roedd derbyn yr ohebiaeth gan y DVLA yn brofiad pryderus iawn. Roeddwn yn ofni y byddwn yn colli fy annibyniaeth, gan fod gyrru yn rhan hanfodol o'm bywyd bob dydd. Roedd y cymorth a gefais gan y Swyddog Cyswllt Cymunedol a Chyngor ar Bopeth yn amhrisiadwy. Gwnaeth yr arweiniad wrth gwblhau'r ffurflenni a'r gefnogaeth emosiynol a ddarparwyd drwy'r Grŵp Strôc wahaniaeth sylweddol i mi. Roedd derbyn cadarnhad y gallwn gadw fy nhrwydded yn rhyddhad mawr."

Social Value Cymru

Ers 2016 mae Mantell Gwynedd wedi bod yn cyflawni gwaith arloesol yn y maes o fesur gwerth cymdeithasol ac wedi arwain y gwaith ar lefel genedlaethol.

Mae 4 aelod staff wedi bod yn gweithio yn y maes yma dros y flwyddyn a phob un ohonynt wedi cymhwyso fel ymarferwyr sydd wedi eu hachredu trwy Social Value International. Mae'r tîm wedi gweithio gyda sefydliadau ar draws Cymru, gan gynnwys y sector gyhoeddus, er mwyn eu cynorthwyo i fesur eu gwerth cymdeithasol.

Yn ystod 2025 llwyddodd Mantell Gwynedd i ennill marc ansawdd Lefel 3 – UCHAFU (maximise) gan Social Value International. Mae'r marc ansawdd yma yn tystio fod Mantell Gwynedd fel sefydliad yn defnyddio systemau a phrosesau sy'n gyson gydag egwyddorion gwerth cymdeithasol er mwyn uchafu gwerth.

Mantell Gwynedd yw'r sefydliad cyntaf yng Nghymru i ennill marc ansawdd Lefel 3.



ASTUDIAETH ACHOS 1:
Antur Waunfawr

Yn ystod 2025-2026, roeddem yn falch o'r cyfle i gydweithio gydag un o fudiadau lleol Gwynedd i fesur effaith gymdeithasol eu gwaith. Mae Antur Waunfawr yn fenter gymdeithasol flaenllaw sy'n darparu hyfforddiant a chyfleoedd gwaith yn eu cymuned i bobl ag anableddau dysgu.

Comisiynwyd Social Value Cymru i baratoi gwerthusiad o'r gwasanaethau tai a gwasanaethau dydd ar draws eu safleoedd gan gynnwys y brif safle yn Waunfawr, Warws Werdd, Beics Antur a Caergylchu. Cafwyd sawl ymweliad er mwyn ymgysylltu ac arsylwi'r gweithgareddau ond hefyd trwy weithio gyda rhieni a staff cafwyd darlun o'r gwerth cymdeithasol.

Dangosodd y gwaith o fesur gwerth cymdeithasol fod £2.11 wedi ei greu am bob £1 a fuddsoddwyd yn y gwasanaethau dydd.

"Mae'r cymorth gan Social Value Cymru wedi ein helpu i ddeall a mynegi ein gwerth cymdeithasol yn llawer cliriach. Trwy'r broses, rydym wedi magu mwy o hyder wrth gasglu, dadansoddi a defnyddio tystiolaeth i ddangos yr effaith rydym yn ei gael ar ein cymunedau a'n rhanddeiliaid. Mae'r gwaith wedi ein galluogi i adnabod a threfnu'r wybodaeth sydd gennym yn well, gan ein helpu i gyfathrebu ein heffaith yn fwy effeithiol i gynulleidfaoedd mewnol ac allanol. Mae hyn hefyd wedi cryfhau ein gallu i ddangos gwerth ein gwaith mewn ceisiadau ariannu ac wrth adrodd i bartneriaid. Yn ogystal, mae'r broses wedi rhoi gwell dealltwriaeth i ni o bwysigrwydd mesur gwerth cymdeithasol yn barhaus, a sut gall y data ein helpu i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ar gyfer y dyfodol."

Gwenlli Wynne, Rheolwr Busnes

ASTUDIAETH ACHOS 2:
Awel Aman Tawe

Comisiynwyd Social Value Cymru gan Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru i gyflwyno adroddiad Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) a gwerthusiad effaith Awel Aman Tawe (AAT) rhwng Ionawr 2023 a Rhagfyr 2025 ar draws eu pum prif brosiect: Hwb y Gors, We Are Energy Warriors, Taith Co-op, y Gwasanaeth Cyngor Ynni, ac Egni Co-op. Y pwrpas oedd asesu'r gwerth cymdeithasol, economaidd a llesiant a grëwyd i gymunedau ledled De Cymru.

Dangosodd yr adroddiad fod AAT yn darparu gwerth sylweddol trwy leihau unigedd cymdeithasol, gwella llesiant, cefnogi pobl sydd yn agored i niwed, cynyddu ymwybyddiaeth amgylcheddol, mynd i'r afael â thlodi tanwydd, a helpu sefydliadau i bontio tuag at ynni adnewyddadwy. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod gwaith AAT yn gwneud cyfraniad cadarnhaol sylweddol i gymunedau ledled De Cymru, wrth gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac uchelgeisiau ehangach o ran cyflawni sero net.

Mae'r adroddiad yn rhagweld y bydd AAT yn cynhyrchu cyfanswm gwerth cymdeithasol o tua £7.2 miliwn o gyfanswm buddsoddiadau o £4.57 miliwn, gan gynhyrchu cymhareb SROI gyffredinol o £1.69 o werth am bob £1 a fuddsoddir.



"Roedd cynnal yr asesiad SROI Gwerth Cymdeithasol yn ymarfer defnyddiol a gwerthfawr iawn, yn enwedig gan ein bod wedi ehangu ac angen cymryd stoc o'r hyn sydd wedi'i gyflawni. Mae wedi ein galluogi i feddwl ymhellach am y dyfodol a beth ddylai ein blaenoriaethau fod. Fe wnaethom fwynhau fawr gweithio gyda'r tîm yn Mantell Gwynedd, sy'n credu yn yr hyn y maent yn ei wneud ac sydd am ychwanegu gwerth at y sefydliadau y maent yn gweithio gyda nhw."

Dan McCallum, Prif Swyddog





Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

Grantiau









CRONFA SECTOR WIRFODDOL...

Y mudiadau fu'n llwyddiannus

ARFON

Canolfan Glanadda, Bangor
£61,112
Adnewyddu'r Ganolfan gan cynnwys gosod cegin, ffenestri, ail-rendro'r adeilad, gwresogyddion, peintio a gorchudd llawr.

"Mae'r gwelliannau yn Glanadda wedi gwneud gwahaniaeth anhygoel. Mae'r ffenestri, gwresogyddion newydd a'r addurno wedi gwneud y ganolfan yn llawer cynhesach a goleuach. Mae'r gegin a'r cyfleusterau newydd yn wych gyda mwy o aelodau'r gymuned yn defnyddio'r Ganolfan."

Caban, Brynrefail
£71,255
Adnewyddu'r Caban gan gynnwys cegin newydd, ffensys a decin allanol, gorchudd lloriau a gwelliannau lifft.

"Mae moderneiddio'r mannau mewnol ac allanol yn y Caban wedi creu amgylchedd mwy hyblyg a all ddarparu ar gyfer ystod ehangach o weithgareddau, gan gynnwys digwyddiadau cymunedol, cyfleoedd hyfforddi, cyfarfodydd cymdeithasol, a chydweithio. Bydd yr hyblygrwydd cynyddol hwn yn ein helpu i ehangu'r gwasanaethau a'r gweithgareddau y gallwn eu cynnig, gan gryfhau ein rôl fel canolfan ar gyfer hwb i'r gymuned yn Brynrefail."

Maes-G Showzone, Bangor
£6,919
Prynu offer technegol ar gyfer cynnal cynyrchiadau a lleihau costau rhedeg ar gyfer y dyfodol.

"Mae hyn yn newyddion gwych i ni gan y bydd yr offer yn ein helpu am flynyddoedd i ddod."

Antur Waunfawr
£10,975
Adnewyddu'r caffi a darparu offer newydd ar gyfer ail agor caffi cymunedol, pwyntiau gwefru trydanol ynghyd â chyfleoedd hyfforddiant

"*Gwnaeth y grant wahaniaeth mawr iawn I Antur Waunfawr. Heb y cymorth ariannol i brynu'r offer angenrheidiol, ni fyddai Caffi Blas y Waun wedi gallu ailagor. Erbyn hyn, mae'r caffi wedi'i sefydlu'n gadarn ac yn mynd o nerth i nerth. Yn bwysicach fyth, mae'r caffi wedi dod yn ganolbwynt i'r gymuned leol – man croesawgar lle gall pobl gyfarfod, lleihau unigrwydd, a chryfhau cysylltiadau cymdeithasol. Mae hefyd wedi creu cyfleoedd i'r pobl ag anableddau dysgu sy'n derbyn hyfforddiant gennym, gan ddatblygu eu sgiliau a chyfrannu'n gadarnhaol at eu llesiant a hyder."*

Cymdeithas Diogelu'r Gerlan, Bethesda
£7,668
Uwchraddio'r Ganolfan drwy osod ffenestri a drysau newydd.

"Mae grant SPF drwy Mantell Gwynedd wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r ganolfan gymunedol yn Gerlan. Mae wedi gwneud y ganolfan gymunedol yn fwy croesawgar, sydd wedi creu ymdeimlad o falchder yn y gymuned ac yn darparu croeso cynnes."

Clwb Rygbi Bethesda
£29,649
Gwella cyfleusterau gan gynnwys gosod goleuadau allanol a tharmacio maes parcio newydd.

"Mae'r grant wedi sicrhau gwell mynediad a chyfleusterau fydd yn gwneud y ganolfan yn fwy hygyrch a rhoi mwy o gyfleoedd i'r gymuned leol wneud defnydd o'r adeilad."

Gŵyl Arall, Caernarfon
£8,510
Cynnal hyfforddiant i wirfoddolwyr ar gyfer cynyddu sgiliau sain a marchnata.

"Mae'r grant yma wedi bod yn bwysig iawn i Gŵyl Arall. Mae gennym nawr bŵl o wirfoddolwyr sydd yn gymwys ac yn hyderus i helpu gyda marchnata a darparu'r elfennau technegol mewn digwyddiadau byw. Mae wedi bod yn ffordd wych o ddod i adnabod gwirfoddolwyr newydd i fod yn rhan o dîm Gŵyl Arall. Mae'r sgiliau hyn yn hanfodol i'n galluogi ni i gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau i safon uchel mewn ffordd cynaliadwy. Yn ogystal mae'r sawl oedd ar y cyrsiau hyn yn defnyddio eu sgiliau i helpu sefydliadau a digwyddiadau eraill yn yr ardal, felly nid Gŵyl Arall yn unig sydd yn elwa."

DWYFOR

Amgueddfa Forwrol Llŷn, Nefyn
£45,363
Adnewyddu'r Amgueddfa gan osod system pwmp gwres aer, ail-fodelu gofod mewnol, gwella insiwleiddio ffenestri, peintio ynghyd a gosod offer diogelwch pellach.

"Mae'r gwelliannau i'r system wresogi ac insiwleiddio y ffenestri, yn galluogi cynnal mwy o ddigwyddiadau neu logi yr adeilad allan drwy'r flwyddyn, fydd yn helpu incwm yr Amgueddfa i'r dyfodol. Mae'r gwaith pellach sy'n cynnwys canllawiau newydd, ystôl i'r croglofft ac uwchraddio system larwm mwg/tresmaswr yn bwysig iawn i wella diogelwch yr Amgueddfa a'i chasgliad."



Pwyllgor Cae Chwarae Llanbedrog
£40,000
Gosod offer cyfoes a hygyrch ar gyfer cae chwarae newydd.


"Yn sgil derbyn grant Mantell Gwynedd er mwyn gwella Cae Chwarae Llanbedrog mae'r buddion wedi mynd tu hwnt i'r gallu i osod offer newydd, diogel ac arloesol. Mae wedi darparu gofod sy'n hafan i blant y pentref a thu hwnt i ymgynnull yn yr awyr iach i chwarae a chymdeithasu. Mae'r cylch meithrin lleol yn ei ddefnyddio ar gyfer sesiynau chwarae, a phlant yr ysgol gynradd ac uwchradd yno bob gafael yn mwynhau. Diolch o galon am y gefnogaeth amhrisiadwy hon."

Cyngor Tref Pwllheli
£4,999
Comisiynu astudiaeth dichonoldeb a datblygu cynlluniau ar gyfer ail-fodelu parc sglefrio.

"Mae'r grant gan Mantell Gwynedd wedi bod yn allweddol wrth alluogi'r Cyngor Tref i gynnal proses ymgynghori ystyrlon, gan dderbyn mewnbwn gan y gymuned i ddarparu'r dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb, sy'n cynnig campfa awyr agored a llwybr ninja—rhywbeth na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall."

Neuadd Goffa Penmorfa a'r Cylch
Grŵp Ti a Fi Sarn Bach
£2,858
Cynnal cyfres o weithgareddau ynghŷd â phrynu deunyddiau ar gyfer grŵp newydd.

"Mae'r arian grant wedi galluogi ni fel rhieni i ddod a'n plant i gyd-chwarae ond hefyd i ni gymdeithasu. Mae wedi ein galluogi ni i ddarparu teganau diogel, addysgol ac ysgogol i'r babis a phlant sy'n hyrwyddo eu datblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol. Rydym hefyd wedi cael profi amrywiaeth o weithgareddau megis gwersi cerdd, gweithdai crefftau, cwrs cymorth cyntaf, Sensori Sara a llawer mwy."



MEIRIONNYDD

Neuadd Bentref Brithdir
£17,627
Comisiynu astudiaeth dichonoldeb a chynlluniau ar gyfer uwchraddio'r neuadd. Darparu byrddau a chadeiriau newydd ar gyfer y neuadd.

"Mae'r grant yma wedi bod o help mawr i ni yn ein hymgais o ddatblygu a gwella cyflwr y neuadd. Ein nod hefo'r arian grant oedd cyflawni gwaith rhagbaratoawl i'n galluogi ni i symud ymlaen i wireddu'r datblygiad. Mae'r adroddiadau a chynlluniau angenrheidiol wedi eu cwblhau ac mae'r cais cynllunio wedi ei gyflwyno. Mae'r byrddau a chadeiriau newydd mewn defnydd yn barod a defnyddwyr y neuadd yn falch ohonyn nhw."

Neuadd Gymuned Talsarnau
£9,437
Gosod cegin newydd yn y neuadd a pheintio'r ystafell.

"O ganlyniad i'r gwaith o adnewyddu'r gegin, mae'r neuadd wedi denu mwy o ddefnyddwyr. Mae'r buddsoddiad trwy Mantell Gwynedd yn galluogi'r neuadd i wasanaethu nifer fawr o ddefnyddwyr dros y tymor hir."





Neuadd Dyfi, Aberdyfi
£2,495
Uwchraddio systemau digidol/band eang y neuadd er mwyn eu galluogi i gynnal amrywiaeth eang o weithgareddau a digwyddiadau.

"Daeth y grant Ffyniant Gyffredin drwy Mantell Gwynedd ar yr union amser iawn i ni. Roedd ein rhwydwaith Technoleg Gwybodaeth yn cael trafferth gyda'r galwadau cynyddol yr oeddem yn eu gwneud. Helpodd y cyllid ni i uwchraddio, atgyfnerthu a gwella nid yn unig Wi-Fi, ond goleuadau Sain Theatr a digwyddiadau ffrydio byw. Diolch yn fawr iawn."

Cwmni Pum Plwy Penllyn, Y Bala
£70,000
Adnewyddu Canolfan Bro Tegid yn Y Bala gan gynnwys ail-bwyntio'r adeilad, ail-fodelu ystafelloedd ymolchi, grisiau newydd, addasu'r cyntedd ac addurno'r ganolfan.

"Roedd uwchraddio Canolfan Bro Tegid yn fuddsoddiad hanfodol i'r gymuned leol, gan gryfhau rôl y Ganolfan fel canolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol yn y dref. Trwy wella'r cyfleusterau, sicrhawyd bod y ganolfan yn hygyrch, modern ac yn addas ar gyfer anghenion presennol a dyfodol y gymuned. Bu'r prosiect hwn nid yn unig yn cynyddu defnydd o'r ganolfan, ond hefyd yn cryfhau ymdeimlad o berthyn ymysg trigolion yr ardal. Rydym yn hynod ddiolchgar am yr arian grant a dderbyniwyd, a wnaeth y datblygiadau hyn yn bosibl."





Theatr y Ddraig, Y Bermo
£10,691
Hyfforddi staff i ddatblygu cynllun marchnata, darparu offer cyfrifiadurol newydd ynghŷd â gwelliannau i'r lifft ac offer cegin newydd.

"Mae'r grant hwn wedi ein galluogi i wella ein cyfleusterau arlwyo yn aruthrol ac yn bwysicaf oll ein lifft sy'n hanfodol i gyrraedd pob rhan o ochr y theatr o'r adeilad y tu hwnt i'r cyntedd. Mae ein cynllun marchnata a'n datblygu cynulleidfaoedd hefyd wedi cael hwb enfawr gyda'r hyfforddiant, y gliniaduron a'r baneri. Edrychwn ymlaen i elwa mewn niferoedd cynulleidfaoedd cynyddol y flwyddyn nesaf."

Cyngor Cymuned Talsarnau
£6,015
Gwella mynedfeydd cae chwarae Talsarnau i alluogi defnydd drwy'r flwyddyn o'r cae chwarae.

"Mae'r grant wedi helpu i wella cyfleusterau cymunedol a chefnogi'r Cyngor Cymuned yn ariannol i gyflawni'r gwaith."

Hwb Cymunedol Oasis, Y Bermo
£89,965
Adnewyddu a chreu gofod newydd yn yr Hwb Cymunedol yn cynnwys ail-blastro, lloriau a nenfydau newydd, ystafelloedd ymolchi a thoiledau, cegin, ail-beintio a gorchudd lloriau.

"Bydd y grant yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'n sefydliad er mwyn cyrraedd mwy o bobl yn ein cymuned."



Clwb Pêl Fasged Tegid, Y Bala
£2,062
Datblygu cyfleoedd i blant a phobl ifanc Y Bala i gymryd rhan mewn datblygu'r Clwb Pêl Fasged a hyfforddi aelodau i dderbyn Tystysgrif Hyfforddi.

"Mae'r grant wedi galluogi i ni wella ansawdd ein gweithgareddau trwy ganiatáu i aelodau fynd ar gyrsiau hyfforddi, sydd o ganlyniad wedi datblygu eu gwybodaeth hwy. Mae'r grant wedi galluogi i ni gynnal mwy o sesiynau ymarfer ar gyfer plant a phobl ifanc am y flwyddyn gyfan. Elfen bwysig arall o'r grant yw ei bod wedi caniatáu ni i drefnu a rhedeg diwrnodau blasu i blant iau ar gyfer datblygu oedrannau ychwanegol i'r clwb. Rydym hefyd wedi gallu archebu offer angenrheidiol ar gyfer y diwrnodau yma."

Sesiwn Fawr, Dolgellau
£22,568
Cefnogi cyfleoedd hyfforddi iechyd a diogelwch ynghyd â hyfforddi sgiliau sain a thechnoleg i'r gymuned leol a fydd/all arwain at gyflogaeth.

"Mae'r grant wedi sicrhau hyfforddiant a fydd/all arwain at gyflogaeth. Mae 9 wedi derbyn hyfforddiant SIA a rhai eisoes wedi derbyn gwaith o ganlyniad. Mae hefyd wedi cefnogi hyfforddi gwirfoddolwr fydd yn helpu i gadw costau cynnal Sesiwn Fawr mor isel â phosib."









Friends of Wern Mynach, y Bermo
£21,000
Gwella cyfleusterau gan gynnwys cladio ac insiwleiddio'r caban cymunedol, paneli solar i gyflenwi trydan ar y safle, ffensys ac arwyddion dwyieithog o amgylch yr ardd gymunedol.

"Mae'r grŵp yn ddiolchgar iawn am y cyllid a roddwyd i ni gan Mantell Gwynedd, ni fyddai hyn wedi bod yn bosib heb y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Bydd y ffens yn rhoi safle diogel i ni. Bydd to'r caban yn galluogi ni i gasglu a chynaeafu dŵr glaw. Bydd yr ynni solar yn ein galluogi i bweru goleuadau ac offer foltedd isel. Bydd yr arwyddion yn helpu gydag ymgysylltu ac yn creu dealltwriaeth hawdd o natur, yr amgylchedd a beth yw gwarchodfa natur. Bydd yr holl bethau uchod yn gwella ein grŵp, yn helpu gydag ymgysylltu cymunedol ac yn ychwanegu mwy o wirfoddolwyr o bob oed a chefndir."

Clwb Hoci Dysynni, Tywyn
£15,000
Cyfrannu at gostau datblygu a gosod cae hoci newydd yn Nhywyn.

"Roedd yn golygu y gallai'r prosiect fynd yn ei flaen. Roedd yn brosiect werth £360k ac fe wnaeth y grant wahaniaeth enfawr."

Cwblhawyd adroddiad Mesur Gwerth Cymdeithasol ar 3 phrosiect gan ddefnyddio methodoleg SROI – lle mesurwyd gwerth beth sy'n cael ei gynhyrchu am bob £1 sydd wedi ei fuddsoddi.

Roedd y 3 phrosiect ar draws Gwynedd, un yr un yn ardal Arfon, Dwyfor a Meirionnydd sef Caban Brynrefail, Amgueddfa Forwrol Llŷn, Nefyn a Hwb Cymunedol Oasis yn Y Bermo.







Gwasanaeth Cyflogres Mantell Gwynedd

Mae Mantell Gwynedd yn darparu gwasanaeth cyflogres ar gyfer mudiadau trydydd sector ers blynyddoedd maith bellach.

Mae materion ariannol a chyflogaeth yn gallu bod yn ddyrys, yn enwedig i fudiadau bychan sydd yn aml iawn yn dibynnu ar wirfoddolwyr.

Mae gwasanaeth cyflogres Mantell Gwynedd yn rhoi sicrwydd i fudiadau bod y taliadau a wneir yn rai cywir a bod y gweithdrefnau iawn yn cael eu dilyn. Mae'r gwasanaeth pwysig yma yn golygu fod na rhywun ben arall y linell ffôn neu ar bendraw ebosd yn medru cynnig cyngor a chefnogaeth fel bo'r angen.

Mae 'na gymaint o newidiadau dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig gyda phensiynau, sydd yn golygu fod y gwasanaeth yma yn bwysicach nag erioed i fudiadau bychan.

Dyma sydd gan rai o'r mudiadau i'w ddweud am y gwasanaeth cyflogres:

Noddfa, Caernarfon

"Mae y gwasanaeth 'da ni yn ei dderbyn gan Mantell Gwynedd yn wych.

Cyflogau yn cael eu derbyn mewn amser ac yn gywir.

Diolch am bopeth."

Amgueddfa Forwrol Llŷn

"Mae eich gwasanaeth wedi bod yn angenrheidiol i ni fel elusen fach, ac yn werth bob ceiniog.

Diolch am eich help."

Snowdonia Donkeys

"Mantell Gwynedd prepare our payroll. They provide an efficient and friendly service. They are happy to answer any queries we may have and make me feel that there's no such thing as a daft question!

Thank you! "

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

"Mae gwasanaeth paratoi cyflogau Mantell Gwynedd yn gweithio'n ardderchog i Gyngor Cymuned Llanuwchllyn – mae'n wasanaeth hwylus a chyfeillgar sy'n tynnu'r boen oddi wrth y gwaith o brosesu a thalu cyflogau."

Y diweddar Huw Antur

Cynlluniau i'r Dyfodol

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Byddwn yn parhau i weithredu yn unol â gofynion y Cytundeb Partneriaeth, sef ein cytundeb gyda Llywodraeth Cymru. Mae Mantell Gwynedd yn un o aelodau o'r Bartneriaeth Cefnogaeth Trydydd Sector Cymru, sef rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector yng Nghymru sydd â'r nod o alluogi'r sector a gwirfoddolwyr i gyfrannu'n llawn at lesiant unigolion a chymunedau, yn awr ac yn y dyfodol. Yn ystod 26-27 byddwn yn canolbwyntio ar y Weledigaeth Newydd ar gyfer Gwirfoddoli yng Nghymru.

Mae'r gwaith Partneriaeth sydd wedi digwydd rhwng Cyngor Gwynedd a Mantell Gwynedd ers 23-24 er mwyn hwyluso arian Cronfa Ffyniant Cyffredin a sefydlu Cronfa Sector Wirfoddol wedi bod yn allweddol bwysig. Dros y dair blynedd ddiwethaf, gyda phenodiau newydd i uwch swyddi yn y Cyngor, mae'r cydweithio wedi gwella yn eithriadol ac ym mis Medi 2026, yn dilyn cyfnod o ymgynghori sylweddol mabwysiadodd cabinet Cyngor Gwynedd y Compact Cydweithio ffurfiol rhwng y sector a'r Cyngor. Byddwn yn llunio cynllun gweithredu ffurfiol yn ystod 26-27 er mwyn symud y gwaith a'r weledigaeth yn ei blaen.

Trwy ein prosiect Social Value Cymru, byddwn yn parhau i hyrwyddo'r gwaith o fesur gwerth cymdeithasol. Trwy'r gwaith hwn rydym yn gallu dangos sut yr ydym fel sector yn datgloi potensial Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ogystal, mae y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) wedi rhoi cyfrifoldebau newydd ar gyrff cyhoeddus. Bydd gofyn i gyrff cyhoeddus gyflawni dyletswyddau rheoli contractau er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i ganlyniadau cymdeithasol gyfrifol trwy gadwyni cyflenwi. Mae hwn yn gam allweddol i'w gysidro wrth i waith Social Value Cymru ddatblygu.

Yn ystod 2026 daethpwyd i drefniadau comsiynu newydd ar gyfer gwaith Presgripsiwn Cymdeithasol. Ers degawd comisiynwyd y gwaith trwy Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ond yn ystod y flwyddyn, gyda phwyslais ar gydweithio rhwng y gwasanaeth iechyd ac Awdurdodau Lleol, bydd yr arian ar gyfer y gwaith yn cael ei gomisiynu trwy Gyngor Gwynedd. Mae'r trefniant newydd yma wedi golygu ymestyn ychydig o'r cynnig o Arfon allan i Ben Llŷn ac i sir Feirionnydd. Gobeithio byddwn yn medru adnabod cyllid pellach er mwyn ehangu'r gwasanaeth yn y ddau leoliad newydd yma ymhellach.

Byddwn yn parhau i fanteisio ar bob cyfle posibl i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg yn y trydydd sector, yn enwedig yn y maes gwirfoddoli gan adeiladu ar y gwaith da mae Mantell Gwynedd eisioes yn arwain arno. Yn ystod 2026-27 byddwn yn gweithio ar brosiect gyda Mentrau Iaith Cymru er mwyn rhannu ein ymarfer da fel mudiad o ddefnyddio'r Gymraeg a chefnogi ehangu'r ymarfer da hwnnw.

Yn ystod 2025 bu Mantell Gwynedd yn cynnal prosiect peilot Ffrindia' Newydd sef prosiect cyfeillio. Ariannwyd y peilot trwy arian Cronfa Ffyniant Gyffredin a byddwn yn ystod 2026-27 yn chwilio am gyllid er mwyn adeiladu ar y gwaith da a gyflawnwyd gan y prosiect peilot.


Crynodeb Ariannol


Sut mae Mantell Gwynedd yn cael ei ariannu.

Pob blwyddyn mae Mantell Gwynedd yn llwyddo i ddenu arian o nifer o amrywiol ffynonellau e.e. Cyrff y Llywodraeth, Ymddiriedolaethau Elusennol a Chronfeydd Loteri.

Cyfanswm Incwm yn ystod 2025/26
£1,303,836

Cyfanswm Gwariant yn ystod 2025/26
£1,196,482





Cysylltwch â Mantell Gwynedd am gopi o Gyfrifon Ariannol llawn am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2026

Bwrdd Rheoli 2025/2026

SWYDDOGION
Cadeirydd: Trystan Pritchard
Prif Weithredwr Canolfannau Byw'n Iach
Is-Gadeirydd: Meinir Evans
Prif Swyddog Canolfan Felin Fach
Trysorydd: Elwen Roberts
Menter Gymunedol Y Llew Gwyn
Is-Drysorydd: Annie Williams
Cyn Bennaeth Coleg Harlech WEA (wedi ymddeol)

AELODAU
Y Tad Deiniol
"Yn Ein Blaenau"
Betty Williams
Aelod Seneddol (wedi ymddeol)
Paul John Rowlinson
Cynrychiolydd Cyngor Gwynedd

Staff 2025/2026

TÎM RHEOLI
Bethan Russell Williams
Prif Swyddog
Ceren Williams
Dirprwy Brif Swyddog a Phennaeth Tîm Cyllid a Gweinyddu

DATBLYGU A GWASANAETHAU
Eleri Lloyd Roberts
Rheolwr Gwerth Cymdeithasol
Gareth Jâms
Swyddog Datblygu a Mesur Gwerth
Mathew Lewis
Swyddog Mesur Gwerth Cymdeithasol
Katie Jones
Swyddog Datblygu a Mesur Gwerth Cymdeithasol
Carys Williams
Swyddog Datblygu a Grantiau a Chynorthwy-ydd Cyllid
Carina Roberts
Swyddog Grantiau

IECHYD A LLESIANT
Sioned Llywelyn Roberts
Hwylusydd Iechyd a Llesiant
Rhian Griffiths
Swyddog Cyswllt Cymunedol Arfon

CYLLID A GWEINYDDOL
Tracy Lynne Rotheram
Swyddog Gweinyddol

CANOLFAN GWIRFODDOLI GWYNEDD
Carwyn Humphreys
Cydlynydd Canolfan Gwirfoddoli
Jordan Thomas
Swyddog Gafael Llaw i Wirfoddoli
Beca Gruffydd
Swyddog Prosiect Ffrindia' Newydd
Huw Bebb
Swyddog Gafael Llaw i Wirfoddoli